CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Cygor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council
cyngormon / angleseycouncil
cyngormon / angleseycouncil
cyngormon

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb yr Ardoll Ymwelwyr

ynysmon.llyw.cymru anglesey.gov.wales

# Cynnwys

1 Cyflwyniad 1
2 Y Cyd-destun Deddfwriaethol 3
3 Methodoleg 4
4 Crynodeb o Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar lefel genedlaethol 6
5 Asesiad o'r effaith leol ar gydraddoldeb 11

# 1 Cyflwyniad

1.1 Yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ystyrir yr effeithiau a allai ddod i ran cydraddoldeb pe bai Cyngor Sir Ynys Môn yn gosod ardoll ymwelwyr. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno gwybodaeth i Gyngor Sir Ynys Môn i ategu ei ystyriaethau ynglŷn â gosod ardoll ymwelwyr mewn perthynas â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

## Trosolwg o'r Ardoll Ymwelwyr

1.2 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn rhoi dewis i gynghorau godi tâl ar arosiadau dros nos. Gelwir y tâl hwn yn 'ardoll ymwelwyr', a gall cynghorau ddewis cyflwyno'r ardoll yn eu hardal o fis Ebrill 2027.

1.3 Gellir codi'r ardoll ar ddwy gyfradd wahanol:

- Lleiniau safleoedd gwersylla ac ystafelloedd a rennir (hostelau ac ystafelloedd aml-wely): 75c y pen, y noson
- Pob math arall o lety i ymwelwyr: £1.30 y pen, y noson

1.4 Ceir esemptiadau[1]; ni fydd ymwelwyr yn talu'r ardoll ymwelwyr os byddant:

- dan 18 oed ac yn gwersylla neu'n aros mewn ystafell a rennir (fel hostelau neu ystafelloedd aml-wely)
- yn aros am fwy na 31 noson ar un archeb
- yn aros mewn llety brys neu dros dro a drefnwyd gan y cyngor lleol

1.5 Bydd arian yr ardoll yn cael ei ailfuddsoddi mewn pethau fel rheoli'r gyrchfan a gwella'r ardal. Mae Adran 44 o Ddeddf 2025 yn nodi bod yn rhaid i gynghorau ddefnyddio arian yr ardoll ar gyfer:

- lleihau'r effaith a gaiff ymwelwyr;
- cynnal a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg;
- hyrwyddo a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau at ddefnydd ymwelwyr (pa un a fyddant at ddefnydd pobl leol hefyd, ai peidio).

## Diben yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

1.6 Wrth ystyried a ddylid gosod ardoll ymwelwyr ai peidio, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn ystyried yr effeithiau posibl ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010').[2] Diben yr Asesiad o'r Effaith ar

---

[1] Yr ardoll ymwelwyr: cyfraniad bach ar gyfer etifeddiaeth barhaol: Ar gael yma
[2] Deddf Cydraddoldeb 2010.

Gydraddoldeb yw cyflwyno gwybodaeth a all gynorthwyo'r cyngor yn ei rôl fel awdurdod lleol wrth arfer Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

1.7 Yn **Adran 2** yr adroddiad hwn, nodir y cyd-destun trwy bennu'r cyd-destun deddfwriaethol, ac esbonnir y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan ystyried effeithiau anghymesur a gwahaniaethol.

1.8 Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â gosod ardoll ymwelwyr ledled Cymru.[3] Yn **Adran 3**, crynhoir canfyddiadau'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb.

1.9 Yn **Adran 4**, ystyrir yr effaith a fyddai'n deillio o osod ardoll ymwelwyr yn Ynys Môn a'r ffyrdd posibl y gallai'r effeithiau hynny ryngweithio â nodweddion gwarchodedig.

1.10 Cynhaliwyd asesiad ar wahân o'r effaith economaidd – pan fo'n berthnasol, croesgyfeirir ato yn yr asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb.

[3] Llywodraeth Cymru, 2025. Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma

# 2 Y Cyd-destun Deddfwriaethol

2.1 Deddf 2010 yw sail y gyfraith atal gwahaniaethu ym Mhrydain Fawr. Yn Adran 4 o Ddeddf 2010, diffinnir gwahanol fathau o nodweddion gwarchodedig sy'n berthnasol i'r Ddeddf, sef:

- Oedran;
- Anabledd;
- Ailbennu rhywedd;
- Priodas a phartneriaeth sifil;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd a chred;
- Rhyw;
- Cyfeiriadedd rhywiol.

2.2 Mae Deddf 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi sylw dyladwy i ystyriaethau cydraddoldeb wrth iddynt arfer eu swyddogaethau. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyladwy i'r angen i wneud y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddwch, erledigaeth ac unrhyw beth arall a waherddir gan neu dan y Ddeddf hon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno;
- Meithrin cydberthnasau da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno.

2.3 Mae'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol (fel y nodir yn Adran 149 (3) o Ddeddf 2010):

- Dileu neu leihau anfanteision a ddaw i ran unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol, sef anfanteision sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno;
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol, sef anghenion sy'n wahanol i anghenion unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno;
- Annog unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad unigolion o'r fath yn anghymesur o isel.

# 3 Methodoleg

## Dull

3.1 Bydd pob ymyriad yn esgor ar amrywiaeth o effeithiau, gan gael effaith a all fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.

3.2 Yn achos pawb y bydd rhyw ymyriad yn effeithio arnynt, byddant yn meddu ar rai nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf 2010, bydd croestoriadedd yn digwydd i wahanol raddau (megis oedran, hil a rhyw), ac ni fydd yr ymyriadau'n effeithio'n gyfartal ar bawb. Ond nid yw hyn yn cyfateb, o angenrheidrwydd, i effaith ar gydraddoldeb.

3.3 Er mwyn canfod pa effeithiau sy'n berthnasol i ystyriaethau cydraddoldeb, mae asesiadau cydraddoldeb yn pennu bod effeithiau cydraddoldeb yn cyfateb i effeithiau sy'n effeithio'n anghymesur neu'n wahaniaethol ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol o gymharu ag unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodweddion gwarchodedig hynny, fel yr esbonnir isod:

- **Anghymesur:** efallai y ceir effaith anghymesur ar gydraddoldeb pan fo cyfran fwy o bobl â nodwedd warchodedig arbennig yn dioddef effeithiau o gymharu â'r boblogaeth ehangach.
- **Gwahaniaethol:** efallai y ceir effaith wahaniaethol ar gydraddoldeb pan fo pobl â nodwedd warchodedig yn dioddef effeithiau gwahaniaethol o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, a hynny gan eu bod yn agored i niwed neu oherwydd cyfyngiadau a wynebant yn sgil y nodwedd warchodedig honno.

3.4 Nid oes modd mesur graddfa nac arwyddocâd effeithiau o'r fath bob amser. O'r herwydd, mae'r broses o ystyried effeithiau cydraddoldeb yn cynnwys dadansoddiad disgrifiadol o'r effeithiau posibl, a hefyd nodir a fydd effeithiau o'r fath yn niweidiol ynteu'n fanteisiol.

3.5 Mae effeithiau cydraddoldeb yn gymhleth, ac maent yn anodd eu rhagweld yn gywir ac yn gynhwysfawr. Mater personol yw nodweddion gwarchodedig pobl, ac ni wyddys beth ydynt bob amser. Ychwaith, nid yw'r holl bobl a fydd yn byw wrth ymyl yr ardal, yn gweithio yn yr ardal, neu'n ymweld â'r ardal yn y dyfodol, yno heddiw. Oherwydd hyn, dim ond effeithiau y gellir eu rhagweld yn rhesymol a ystyrir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

3.6 Mewn unrhyw benderfyniad a wneir gan gyrff cyhoeddus, efallai y bydd angen ystyried a chydbwyso amrediad o wahanol effeithiau cadarnhaol a negyddol. Efallai y ceir mesurau lliniaru rhesymol a all ddileu neu leihau rhai effeithiau anghymesur neu wahaniaethol ar gydraddoldeb, ond efallai na fydd modd osgoi rhai effeithiau bob amser.

## Cwmpas yr Asesiad

3.7 Prif amcan yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw cyflwyno gwybodaeth i Gyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â'i effaith ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, er mwyn llywio'i benderfyniadau.

3.8 Gallai'r ardoll ymwelwyr effeithio ar dri grŵp cyffredinol o bobl, sef:

- Pobl sydd (neu a fydd yn y dyfodol) yn cael eu cyflogi mewn swyddi twristiaeth (neu sectorau cysylltiedig), y gallai cyflwyno'r ardoll effeithio ar eu cyflogaeth – yn cynnwys perchnogion busnesau y gellid effeithio arnynt.

- Pobl sy'n byw yn yr ardal, y gallai cyflwyno'r ardoll effeithio arnynt – trwy weld newid yn nifer yr ymwelwyr a/neu a fyddai'n elwa ar fuddsoddi arian yr ardoll.

- Ymwelwyr (neu bobl eraill sy'n aros dros nos) y byddai'n rhaid iddynt dalu'r ardoll.

3.9 O fewn y grwpiau hyn, fe fydd yna bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig, ac fe fydd yna wahanol raddau o groestoriadedd.

3.10 Y man cychwyn ar gyfer cynnal yr asesiad yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar lefel Cymru gyfan[4] (Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb), yn cynnwys yr asesiad, yr ymgynghoriad / gwaith ymgysylltu a'r mesurau lliniaru. Yna, awn ati i ystyried a oes yna unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn a allai newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac arwain at effeithiau anghymesur neu wahaniaethol.

[4] Llywodraeth Cymru, 2025. Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma

# 4 Crynodeb o Asesiad Llywodraeth Cymru o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar lefel genedlaethol

4.1 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn defnyddio ffigurau a data ystadegol yn ymwneud â phob nodwedd warchodedig a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn cynnwys elusennau, grwpiau anabledd a sefydliadau ffydd, er mwyn pennu – a lliniaru, pan fo modd – unrhyw effeithiau negyddol posibl ar gydraddoldeb.

4.2 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o’r Effaith ar Gydraddoldeb:

> ***‘Nod cyffredinol yr ardoll yw cynhyrchu refeniw ychwanegol i awdurdodau lleol sy’n dewis defnyddio ardoll, ac ni ddisgwylir y bydd effeithiau “uniongyrchol” ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.’***

4.3 Yn yr asesiad, nodir y byddai cyflwyno ardoll ymwelwyr yn effeithio ar awdurdodau lleol, ymwelwyr, trigolion lleol a busnesau, naill ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol. Diffinnir ‘effaith uniongyrchol’ fel unrhyw effaith bosibl yn sgil gorfod talu neu godi’r ardoll. Diffinnir ‘effaith anuniongyrchol’ fel unrhyw effaith bosibl yn sgil bodolaeth yr ardoll.

4.4 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn cydnabod mai gwaith ymchwil cyfyngedig yn unig a geir mewn perthynas â’r effaith y byddai cyflwyno ardoll ymwelwyr yn ei chael ar nodweddion gwarchodedig, felly defnyddir gwybodaeth ansoddol a rhywfaint o ddata i lunio casgliadau ynglŷn ag effeithiau “anuniongyrchol” posibl. Mae’r un amodau’n berthnasol i’r asesiad lleol.

## Y sefyllfa gyffredinol mewn perthynas ag ad-daliadau ac esemptiadau

4.5 Ar sail yr ymgynghoriad ffurfiol, gwelwyd bod y rhai a oedd o blaid esemptio rhai grwpiau yn tueddu i gredu bod angen gwneud hynny oherwydd y rhesymau canlynol:

4.5.1 dylid rhoi esemptiadau ar waith er mwyn hyrwyddo tegwch a chanlyniadau cyfartal trwy gynorthwyo grwpiau â nodweddion gwarchodedig, a hefyd

4.5.2 ni ddylai rhai grwpiau gael eu dosbarthu fel ymwelwyr, ac o’r herwydd ni ddylent orfod talu ardoll.

4.6 Yn achos y rhai a oedd yn anghytuno â gosod esemptiadau, roeddynt o’r farn y gallai esemptiadau gyflwyno cymhlethdodau a chynyddu’r baich gweinyddol i awdurdodau treth a darparwyr llety ymwelwyr, ac roeddynt o’r farn y gallai esemptiadau fod yn annheg gan fod pob ymwelydd yn elwa ar seilwaith a gwasanaethau i ymwelwyr.

4.7 Yn y pen draw, mae Llywodraeth Cymru yn bendant ei barn bod angen sylfaen bolisi glir ar gyfer esemptiadau neu gyfraddau is ar sail nodweddion gwarchodedig. Y dull, felly, yw lleihau’r defnydd o esemptiadau a defnyddio cyfradd ardoll is.

4.8 Er mwyn sicrhau dull graddoledig a gwneud yn siŵr na fydd pobl ar incwm is yn cael eu datgymell neu eu rhwystro rhag talu’r costau ychwanegol sy’n gysylltiedig â’r ardoll, nodir dwy gyfradd yn

y Bil, sef cyfradd is ar gyfer hostelau a safleoedd gwersylla a chyfradd uwch ar gyfer pob llety arall i ymwelwyr.

4.9 Bydd modd i Weinidogion Cymru asesu a diwygio'r cyfraddau a bennir yn y ddeddfwriaeth os daw effeithiau niweidiol i'r amlwg.

4.10 Caiff y grwpiau a'r sefyllfaoedd canlynol eu hesemptio:

- Arosiadau dros nos ar safleoedd sipsiwn a theithwyr.
- Arosiadau a drefnir gan y Swyddfa Gartref fel rhan o'i rhwymedigaethau statudol.
- Arosiadau brys mewn llety ymwelwyr a drefnir gan awdurdodau lleol fel rhan o'u dyletswyddau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
- Arosiadau a drefnir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel rhan o'i rhwymedigaethau statudol.
- Ni chynhwysir pobl dan 18 oed yn y tâl cyfrifadwy ar gyfer arosiadau cyfradd is.

4.11 Yn yr un modd, bydd modd cael ad-daliadau mewn achosion pan na fydd modd darparu esemptiad, megis:

- Arosiadau'n ymwneud â llety brys dros dro a drefnir gan sefydliadau elusennol mewn llety ymwelwyr ar ran pobl ddigartref, yn cynnwys ceiswyr lloches a phobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig.
- Pobl anabl sy'n cael budd-dal anabledd cymwys, a dalodd ardoll ymwelwyr tra'r oeddynt yn aros mewn llety ymwelwyr ac sydd yng nghwmni gofalwr.
- Arosiadau lle ceir risg i iechyd a diogelwch neu les pe bai rhyw unigolyn wedi aros yn ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa (er enghraifft, arosiadau a drefnir gan elusennau ar gyfer pobl agored i niwed; neu pan fo tân, llifogydd neu drychineb arall yn golygu nad oes modd byw yn yr eiddo; neu pan fo'r gwasanaethau brys wedi cynghori na ddylid aros yn yr eiddo am resymau o'r fath).

4.12 Fel rhan o'r broses ymgynghori, ymgysylltodd swyddogion llywodraeth Cymru â thimau polisi yn Llywodraeth Cymru ac yn y trydydd sector er mwyn deall mwy am brofiadau byw grwpiau agored i niwed sydd angen llety ymwelwyr.

4.13 O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu hwnnw, cymerwyd y camau canlynol mewn perthynas ag esemptiadau ac ad-daliadau.

- Esemptiadau:
  - Nodi'n glir yn Neddf 2025 y mathau o arosiadau mewn llety ymwelwyr a fydd yn esempt rhag talu ardoll ymwelwyr er mwyn sicrhau bod nodau'r polisi yn cael eu gwireddu.
  - Y gallu i gyflwyno esemptiadau newydd, ynghyd â'r gallu i addasu neu ddileu esemptiadau, pe bai tystiolaeth yn dod i'r amlwg ynglŷn ag unrhyw effaith anghymesur.
- Ad-daliadau – y gallu i ychwanegu at y rhestr o senarios a allai fod yn gymwys i gael ad-daliadau, pe bai tystiolaeth berthnasol yn dod i'r amlwg.

## Nodweddion gwarchodedig

4.14 Yn Nhabl 3-1 isod, ceir crynodeb o'r effaith ar bob nodwedd warchodedig a'r mesurau ar gyfer lliniaru'r effeithiau a gynhwysir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Tabl 3-1: Yr effaith ar nodweddion gwarchodedig – Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| Oedran | Dim effeithiau negyddol na chadarnhaol uniongyrchol. Pennwyd rhai effeithiau eilaidd ar gyfer plant a phobl ifanc.<br><br>Efallai y bydd y gallu i dalu ardoll yn effeithio'n wahanol ar bobl ar incwm is, e.e. pobl iau neu bobl hŷn. | Caiff pobl dan 18 oed eu heithrio rhag talu ardoll ar gyfer arosiadau cyfradd is. |
| Anabledd | Pe bai ardoll ymwelwyr yn cael ei chodi ar ofalwyr sy'n mynd gydag unigolion anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad, gellid dehongli y byddai hynny'n cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol. Y rheswm am hyn yw y gallai pobl anabl sydd angen gofalwr wynebu costau ychwanegol oherwydd bod yr ardoll yn berthnasol i'r gofalwr, pe bai'r unigolyn anabl yn ysgwyddo'r costau ychwanegol hynny. | System ad-dalu ar gyfer pobl sy'n cael budd-dal anabledd ac sy'n cael cwmni unigolyn sy'n darparu gofal, cymorth neu help. |
| Ailbennu rhywedd | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | Caiff arosiadau mewn ysbytai preifat (e.e. fel rhan o broses ailbennu rhywedd unigolion) eu hesemptio rhag yr ardoll. |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | |
| Hil | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | Caiff safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu hesemptio rhag yr ardoll.<br><br>Mae esemptiadau / ad-daliadau ar gael ar gyfer grwpiau agored i niwed, e.e. |

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| | | ceiswyr lloches a phobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig. |
| Crefydd a chred | Dim effaith negyddol uniongyrchol. Efallai y gallai'r ardoll effeithio ar fforddiadwyedd twristiaeth grefyddol, ond mae llety am ddim yn esempt. | Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn cynnig prosesau nad ydynt yn ddigidol ar gyfer y bobl hynny y gallai eu ffydd gyfyngu ar ymgysylltu digidol.<br>Mae llety am ddim yn esempt rhag yr ardoll, a chodir ardoll is ar lety cyfradd is.<br><br>Gellid defnyddio'r refeniw a gynhyrchir yn sgil yr ardoll i ddiogelu a chynnal a chadw safleoedd crefyddol. |
| Rhyw | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim effaith negyddol uniongyrchol. | |

4.15 O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu a wnaed gyda rhanddeiliaid, mae'r mesurau lliniaru ychwanegol a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn cynnwys y canlynol:

- Dylai awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad yn ymwneud â faint o refeniw a gynhyrchir a'r modd y cafodd / y caiff y refeniw ei ddefnyddio er budd y gyrchfan ac i wella'r ardal leol (adlewyrchir hyn yn Adran 45 o Ddeddf 2025).
- Dylai Gweinidogion Cymru gynnal adolygiad ar weithrediad ac effaith Deddf 2025 a dylent gyhoeddi adolygiad bob 5 mlynedd (adlewyrchir hyn yn Adran 63 o Ddeddf 2025).
- Dylid monitro'r defnydd a wneir o ddata, megis arolygon Croeso Cymru, y Baromedr Twristiaeth a gwaith ymgysylltu gyda busnesau ac awdurdodau lleol.
- Dylai Awdurdod Cyllid Cymru fonitro ac adolygu pa mor effeithiol y gweinyddir yr ardoll trwy ymgysylltu â busnesau ac awdurdodau lleol, a dylai adrodd am swm y refeniw a gesglir.

4.16 Isod, ystyrir canfyddiadau'r asesiad 'cenedlaethol' hwn a'r mesurau lliniaru pan fo'n briodol.

# 5 Asesiad o'r effaith leol ar gydraddoldeb

5.1 Yn yr adran ganlynol, cyflwynir data sylfaenol yn ymwneud â demograffeg yr ymwelwyr a'r boblogaeth leol mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir yn Neddf 2010 pan fo data ar gael. Hefyd, llunnir cymhariaeth â data demograffig sylfaenol ar gyfer Cymru mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig.

5.2 Rhagwelir y bydd gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid yn dechrau'n gynnar yn 2026. Bydd y sylwadau a dderbynnir drwy gydol y broses ymgynghori yn llywio cam nesaf yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (fel y bo'n briodol).

5.3 Mae'r mesurau lliniaru a'r argymhellion a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u seilio ar y rhai a gyflwynir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â gosod ardoll ledled Cymru, a'r rhai y cyfeirir atynt yn Neddf 2025.

## Nodweddion Gwarchodedig

### Oedran

5.4 Mewn perthynas ag oedran, ystyrir yr effeithiau posibl ar:

- Ymwelwyr
- Y boblogaeth leol, o ran cyflogaeth

*Ymwelwyr*

5.5 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb: 'Mae'n bosibl bod y rhai mewn oed sydd fel arfer yn cael eu cysylltu ag incwm is (er enghraifft, pobl iau), yn llai tebygol o allu fforddio'r gost ychwanegol ar gyfer llety ymwelwyr sy'n gysylltiedig â'r ardoll'.

5.6 Yn achos pobl dan 18 oed sy'n aros mewn arosiadau cyfradd is, ni fydd yn rhaid iddynt dalu'r ardoll ar gyfer arosiadau cyfradd is. Bydd hyn yn helpu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar bobl ifanc, oherwydd efallai y byddant yn fwy tebygol o aros mewn llety ymwelwyr cyfradd is (er, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi nad oes unrhyw ddata ar gael i gadarnhau'r honiad hwn).

5.7 Hefyd, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi na fyddai costau ychwanegol, o angenrheidrwydd, yn datgymell pobl sy'n ennill llai o arian rhag mynd ar wyliau, ond y gallai costau ychwanegol o'r fath newid eu hymddygiad mewn ffyrdd eraill – fel peri iddynt aros am gyfnod byrrach neu wario llai o arian.

5.8 Nid yw Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn mynd ati'n benodol i ystyried yr effaith bosibl ar bobl hŷn.

5.9 Yn Nhabl 4-1, dangosir dosbarthiad oedran y bobl sy'n ymweld ag Ynys Môn a Chymru. Ymddengys fod cyfran lai o ymwelwyr ifanc yn ymweld ag Ynys Môn o gymharu â Chymru, ac ymddengys fod cyfran fwy o bobl hŷn yn ymweld ag Ynys Môn (er, nid oes data 'tebyg am debyg' ar gael).

5.10 Wrth ddehongli'r tabl, dylid nodi'r canlynol:

- Mae proffil oedran ymwelwyr Ynys Môn yn deillio o 2019, tra mae proffil oedran ymwelwyr Cymru gyfan yn deillio o 2024 – oherwydd argaeledd data ar lefel Ynys Môn.
- Mae proffil oedran ymwelwyr Ynys Môn yn cwmpasu ymwelwyr dydd ac ymwelwyr dros nos, tra mae proffil oedran ymwelwyr Cymru gyfan yn ymwneud ag ymwelwyr dros nos domestig.

Tabl 4-1: Proffil oedran ymwelwyr

| | 16 – 24 | 25 – 34 | 35 – 44 | 45 – 54 | 55 – 64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn (% yr ymwelwyr)[5] | 16 | 14 | 15 | 20 | 18 | 17 |
| Cymru (% y tripiau)[6] | 20 | 27 | 19 | 13 | 13* | 7* |

Sylwer: mae seren ar ôl ffigur yn dynodi bod maint y sylfaen islaw 100 ac y dylid ystyried y ffigur fel ffigur dangosol yn unig.

5.11 Caiff y tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn dioddef effaith wahaniaethol ei liniaru (yn rhannol) gan yr esemptiad ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed, sy'n golygu na fydd yn rhaid iddynt dalu band isaf yr ardoll. Ymddengys na cheir effaith anghymesur (oherwydd awgryma'r data fod llai o ymwelwyr ifanc o Gymru yn ymweld ag Ynys Môn o gymharu â Chymru gyfan).

5.12 Gallai'r gyfran fwy o bobl hŷn sy'n ymweld ag Ynys Môn arwain at effaith anghymesur o ganlyniad i effaith niweidiol y cynnydd yng nghost y trip. Ar y llaw arall, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd yn nodi'r manteision canlynol, sy'n berthnasol i ymwelwyr a thrigolion (ychwanegwyd y pwyslais):

5.12.1 'Gallai'r refeniw ychwanegol hefyd fod o fudd anuniongyrchol i drigolion hŷn a thrigolion iau drwy wella ansawdd bywyd yn y gymuned yn gyffredinol, pe bai'r arian yn cael ei ddefnyddio i wella seilwaith, gan wneud y cyrchfan yn fwy hygyrch i fwy o bobl'.

5.12.2 'Gallai'r arian hefyd gefnogi ymdrechion i ddiogelu diwylliant, a allai helpu i ddiogelu a hyrwyddo treftadaeth a thraddodiadau lleol, a fyddai o fudd i bobl hŷn a allai fod â chysylltiad dyfnach â'r elfennau diwylliannol hyn, ac ar y llaw arall byddai cynnal a chreu cyfleusterau newydd i'r cenedlaethau iau eu defnyddio o fudd i bobl ifanc'.

### *Cyflogaeth*

5.13 Yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, nodir bod swyddi'r bobl a gyflogir yn y sector twristiaeth yn tueddu i fod yn llai diogel – h.y. maent yn gweithio'n rhan-amser neu'n treulio llai o amser yn gweithio i'r un cyflogwr. Ymhellach, mae'r bobl a gyflogir yn y sector twristiaeth yn tueddu i fod yn iau.

5.14 Hefyd, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn defnyddio'r asesiad o'r effaith economaidd ar lefel genedlaethol, a nodir bod effaith yr ardoll ymwelwyr ar gyflogaeth rhwng +100 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a -400 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae'r

[5] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn
[6] Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (tripiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael yma

amrediad yn deillio o ansicrwydd ynghylch i ba raddau y gellir gwrthbwyso llai o alw am wasanaethau twristiaeth gyda gwariant refeniw'r ardoll ymwelwyr.

5.15 Mae'r nifer cyfatebol ar gyfer Ynys Môn rhwng -31 a +7 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (gweler yr Asesiad o'r Effaith Economaidd i gael rhagor o ddata). Gallai unrhyw golledion mewn swyddi effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc.

5.16 Yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, nodir bod 38% o'r gweithwyr twristiaeth ledled Cymru yn 2022 rhwng 16-29 oed. Dengys data diweddarach (ar gyfer y cyfnod rhwng Hydref 2024 a Medi 2025) fod 25% o drigolion Cymru a oedd yn gweithio yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai rhwng 16-24 oed.[7] Y ganran gyfatebol ar gyfer Ynys Môn yw 27%. Mae cyfran uchel iawn o bobl 16-19 oed (15%) yn gweithio yn y sector hwn yn Ynys Môn, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (sef 10%).

Tabl 4-2: Cyflogaeth yn ôl oedran (Dosbarthu, Gwestai a Bwytai) – preswyl (Hydref 2024 – Medi 2025) [8]

| Grŵp oedran | Ynys Môn | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| 16 – 19 | 900 | 15% | 23,700 | 10% |
| 20 – 24 | 700 | 12% | 35,300 | 15% |
| 25 – 49 | 2,200 | 37% | 104,800 | 45% |
| 50+ | 2,100 | 36% | 67,000 | 29% |
| **Cyfanswm** | **5,900** | **100%** | **230,800** | **100%** |

5.17 Er y gellir esgor ar effaith anghymesur (oherwydd y tebygolrwydd uwch y cyflogir pobl ifanc yn y sector twristiaeth), mae'n debyg y bydd maint unrhyw effaith negyddol yn fach iawn – dim ond hyd at 31 o swyddi a fydd yn cael eu colli, sy'n cyfateb i ostyngiad o -0.17% yng nghyflogaeth Ynys Môn, a dyna'r senario waethaf. Hefyd, gellir esgor ar effaith gadarnhaol (sef hyd at oddeutu 7 swydd).

5.18 Ymhellach, nodir y canlynol yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb: '[P]e bai'r refeniw ychwanegol a godir yn ysgogi gwelliannau i'r seilwaith a'r gwasanaethau lleol, gallai hyn arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal, gan sbarduno mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn y sector twristiaeth.'

*Oedran yn gyffredinol*

5.19 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas ag Oedran ar ôl ystyried y mesurau lliniaru (yn cynnwys yr esemptiad i bobl ifanc dan 18 oed ar gyfer llety cyfradd is). Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

[7] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
[8] *Ibid*

5.20 Ceir effeithiau posibl yn ymwneud â chyfran fwy o ymwelwyr hŷn yn Ynys Môn, a gweithlu ifanc; ond yn ôl pob tebyg, bydd effeithiau'r ardoll yn fach – a byddant yn cael eu gwrthbwyso, i ryw raddau, gan wariant yr ardoll.

5.21 Pan ddaw rhagor o wybodaeth i law ynglŷn â'r modd y caiff yr arian ei wario, gellir cynnal asesiad arall o'r effaith debygol ar bobl iau neu bobl hŷn.

### Rhyw

5.22 Mewn perthynas â rhyw, ystyrir yr effeithiau posibl ar:

- Ymwelwyr
- Y boblogaeth leol, o ran cyflogaeth

*Ymwelwyr*

5.23 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail rhyw.

5.24 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod astudiaethau wedi crybwyll bod dynion yn fwy agored i dalu ardoll ymwelwyr. Efallai fod hyn yn deillio o'r rhyngweithio rhwng rhywedd ac incwm, o gofio bod merched yn cael incwm is na dynion ar gyfartaledd.

5.25 Mae Tabl 4-3 isod yn dangos bod cyfrannau tebyg o ymwelwyr benywaidd a gwrywaidd yn ymweld ag Ynys Môn a Chymru gyfan (er, nid oes data 'tebyg am debyg' ar gael). Yn y ddau achos, ceir cyfran fwy o ymwelwyr benywaidd. Wrth ddehongli'r tabl isod, dylid nodi'r canlynol:

- Mae proffil rhyw ymwelwyr Ynys Môn yn deillio o 2019, tra mae proffil rhyw ymwelwyr Cymru gyfan yn deillio o 2024.
- Mae proffil rhyw ymwelwyr Ynys Môn yn cwmpasu ymwelwyr dydd ac ymwelwyr dros nos, tra mae proffil rhyw ymwelwyr Cymru gyfan yn ymwneud ag ymwelwyr dros nos domestig.

Tabl 4-3: Dosbarthiad ymwelwyr yn ôl rhyw

| | Ynys Môn[9] | Cymru[10] |
|---|---|---|
| Merched | 60% | 59% |
| Dynion | 40% | 40% |
| **Pawb** | **100%** | **100%** |

D.S. Efallai na fydd y ganran yn cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu

5.26 Hefyd, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod arolygon yn awgrymu'r canlynol:

[9] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn
[10] Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydai Fawr (tripiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael yma

- Mae'r  mwyafrif (58%) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai twristiaid gyfrannu at gostau cynnal a chadw a buddsoddi yn y cyrchfannau yr arhosant ynddynt. Ychydig iawn (13%) sy'n anghytuno.
- Ceir cytundeb y dylai twristiaid gyfrannu at gynnal a chadw cyrchfannau a buddsoddi mewn cyrchfannau, ac mae hyn yn cyfateb yn gryf i radd gymdeithasol a 'modd ariannol'.

5.27 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Rhyw. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

*Cyflogaeth*

5.28 O ran cyflogaeth, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod mwy o ferched na dynion fel arfer yn gweithio yn y sector twristiaeth, ledled Ewrop. Ond yn Nhabl 4-4 isod, gwelir bod y rhaniad rhwng merched a dynion yn weddol gyfartal yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai, ar gyfer Ynys Môn a Chymru.

Tabl 4-4: Cyflogaeth yn ôl rhyw (Dosbarthu, Gwestai a Bwytai)[11]

| | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| Merched | 3,085 (50%) | 132,116 (49%) |
| Dynion | 3,062 (50%) | 137,360 (51%) |
| **Pawb** | **6,147 (100%)** | **269,476 (100%)** |

5.29 Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith anghymesur neu wahaniaethol i'w chael yn Ynys Môn ar ferched (na dynion) sy'n gweithio yn y sector twristiaeth, o ganlyniad i'r ardoll.

## Priodas a Phartneriaeth Sifil

5.30 Ni ddisgwylir y bydd darpariaethau Deddf 2025 yn cael unrhyw effaith ar nodweddion priodas a phartneriaeth sifil. Bydd ardoll yn cael ei chodi ar lety ymwelwyr dros nos ar gyfer priodasau / seremonïau partneriaeth sifil.

5.31 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Phriodas a Phartneriaeth Sifil. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## Ailbennu Rhywedd

5.32 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd.

[11] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021

5.33 Fodd bynnag, mae Deddf 2025 yn rhoi ystyriaeth i'r bobl hynny sydd angen triniaeth feddygol ar gyfer ailbennu rhywedd ac ni chodir ardoll ar arosiadau mewn ysbytai.

5.34 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas ag Ailbennu Rhywedd. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

5.35 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol.

*Ymwelwyr*

5.36 Awgryma'r dystiolaeth fod 10% o'r tripiau a wnaed i Gymru rhwng Ionawr a Rhagfyr 2024 wedi cael eu gwneud gan ymwelwyr LHDTC+.[12] Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ni cheir unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai ymwelwyr â'r nodwedd 'cyfeiriadedd rhywiol' yn dioddef anfantais yn sgil darpariaethau Deddf 2025. Ar hyn o bryd, nid oes data cyfatebol ar gael ar gyfer Ynys Môn.

*Cyflogaeth*

5.37 O ran cyflogaeth, mae'r tabl isod yn dangos y canlynol:

- Caiff cyfrannau rhywfaint yn llai o weithwyr deurywiol a hoyw neu lesbiaidd eu cyflogi yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai yn Ynys Môn (3%) o gymharu â Chymru (4%).
- Caiff cyfrannau rhywfaint yn fwy o weithwyr deurywiol a hoyw neu lesbiaidd eu cyflogi yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai (3%) o gymharu â'r cyfartaledd ar draws pob sector yn Ynys Môn (2%) – gwelir yr un patrwm yng Nghymru (sef 4% o gymharu â 3%).

Tabl 4-5: Cyflogaeth trigolion yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol[13]

| | | Syth neu Heterorywiol | Hoyw neu Lesbiaidd | Deurywiol | Pob cyfeiriadedd rhywiol arall | Nid atebwyd y cwestiwn | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarthu, Gwestai a Bwytai | Ynys Môn | 90% | 2% | 1% | 0% | 7% | 100% |
| | Cymru | 90% | 2% | 2% | 0% | 6% | 100% |
| Pob sector | Ynys Môn | 92% | 1% | 1% | 0% | 6% | 100% |
| | Cymru | 91% | 2% | 1% | 0% | 5% | 100% |

[12] Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (tripiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024: Ar gael yma
[13] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021

*Cyfeiriadedd Rhywiol – yn gyffredinol*

5.38 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Chyfeiriadedd Rhywiol. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

### Hil

5.39 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail hil.

5.40 Fel y nodir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gall ardollau ymwelwyr effeithio ar hil mewn gwahanol ffyrdd gan ddibynnu ar y cyd-destunau penodol a'r dulliau gweithredu a ddefnyddir, a chan ddibynnu hefyd ar y modd y caiff y refeniw ei wario. Gellir cymryd camau rhagweithiol i sicrhau y bydd modd dosbarthu manteision twristiaeth yn decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth, gan roi lle hollbwysig i ymgysylltu â'r cyhoedd a phrosesau penderfynu cynhwysol er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau negyddol posibl ar grwpiau ethnig leiafrifol.

5.41 Fel y nodir yn Adran 5, ceir system ad-dalu sy'n golygu y gellir rhoi ad-daliadau pan gaiff grwpiau eu cartrefu dros dro mewn llety ymwelwyr a phan fydd elusen yn talu am hynny, mewn argyfwng.

*Ymwelwyr*

5.42 Yn Nhabl 4-7, dangosir proffil ethnigrwydd twristiaeth ddomestig dros nos Cymru yn 2024 a phroffil ethnigrwydd ymwelwyr Ynys Môn.

Tabl 4-7: Proffil ethnigrwydd ymwelwyr a thripiau ymwelwyr

| **Ethnigrwydd yr ymatebwyr** | **Cymru (% y tripiau)** [14] | **Ynys Môn (% yr ymwelwyr)** [15] |
|---|---|---|
| Gwyn | 80% | 99% |
| Grwpiau Cymysg / Amlethnig | 3%** | 2% |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | 6%* | |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | 7%* | |
| Tsieineaidd | 0%** | |
| Arabaidd | 0%** | |
| Grŵp ethnig arall | 0%** | |
| Roedd yn well gan yr ymatebwyr beidio â dweud / Ddim yn gwybod / Ni nodwyd | 3%** | |
| **Cyfanswm** | **100%** | **100%** |

[14] Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (tripiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024. Ar gael yma
[15] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn

Sylwer: mae seren ar ôl ffigur yn dynodi bod maint y sylfaen islaw 100 ac y dylid ystyried y ffigur fel ffigur dangosol yn unig. Mae dwy seren ar ôl ffigur yn dynodi bod maint y sylfaen islaw 30; cynghorir y defnyddwyr i beidio â defnyddio'r amcangyfrif hwnnw.

Sylwer: Efallai na fydd y ganran yn cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu

5.43 Wrth ddehongli'r tabl uchod, dylid nodi'r canlynol:

- Mae proffil ethnigrwydd ymwelwyr Ynys Môn yn deillio o 2019, tra mae proffil ethnigrwydd ymwelwyr Cymru gyfan yn deillio o 2024.
- Mae proffil ethnigrwydd ymwelwyr Ynys Môn yn cwmpasu ymwelwyr dydd ac ymwelwyr dros nos, tra mae proffil ethnigrwydd ymwelwyr Cymru gyfan yn ymwneud ag ymwelwyr dros nos domestig.
- Gan fod proffiliau ethnigrwydd ymwelwyr Ynys Môn a Chymru yn deillio o ffynonellau data gwahanol, mae'r categorïau'n wahanol.

5.44 Serch hynny, awgrymir bod cyfran lai o ymwelwyr Ynys Môn yn dod o grwpiau ethnig leiafrifol, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

*Cyflogaeth*

5.45 O ran cyflogaeth, mae'r tabl isod yn dangos y canlynol:

- Caiff cyfrannau llai o bobl sy'n perthyn i grŵp ethnig leiafrifol eu cyflogi yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai yn Ynys Môn (5%) o gymharu â Chymru (12%).
- Caiff cyfrannau rhywfaint yn fwy o bobl sy'n perthyn i grŵp ethnig leiafrifol eu cyflogi yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai (5%) o gymharu â'r cyfartaledd ar draws pob sector yn Ynys Môn (4%) – golyga hyn y gallai newid mewn lefelau cyflogaeth effeithio ar y grŵp hwn (er bod unrhyw newid yn debygol o fod yn fach).

Tabl 4-8: Cyflogaeth trigolion yn ôl ethnigrwydd[16]

| | | Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | Grwpiau Cymysg neu Amlethnig | Gwyn: Sais/Saesnes, Cymro/Cymraes, Albanwr/Albanes/ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon neu Brydeiniwr/Prydeinwraig | Gwyn: Gwyddel/Gwyddeles | Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, Roma neu Unigolyn Gwyn Arall | Grŵp ethnig arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarthu, Gwestai a Bwytai | Ynys Môn | 2% | 0% | 1% | 95% | 0% | 2% | 0% | 100% |
| | Cymru | 4% | 1% | 1% | 88% | 0% | 5% | 1% | 100% |
| Cyfanswm | Ynys Môn | 1% | 0% | 1% | 96% | 1% | 2% | 0% | 100% |
| | Cymru | 3% | 1% | 1% | 91% | 0% | 4% | 1% | 100% |

*Safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr*

[16] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2021

5.46 Yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, nodir bod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn byw bywyd crwydrol a'u bod yn symud ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

5.47 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod trafodaeth rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Tros Gynnal Plant Cymru wedi dweud na fyddai effaith fawr yn dod i ran Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn ôl pob tebyg, pe bai'r safleoedd parhaol a dros dro dynodedig yn esempt rhag talu'r ardoll.

5.48 Ymhellach, mae safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn esempt rhag yr ardoll. Ni cheir safleoedd cofrestredig yn Ynys Môn.

5.49 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn defnyddio nifer o safleoedd cyhoeddus a phreifat ledled Cymru, yn cynnwys safleoedd tymhorol, tir sy'n addas ar gyfer mannau aros a negodwyd, a safleoedd gwyliau prif ffrwd ar gyfer teithio tymhorol. Yn achos aelodau'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n defnyddio llety ymwelwyr ac eithrio ar gyfer eu prif breswylfa neu eu preswylfa arferol, byddai'n rhaid iddynt dalu'r ardoll.

5.50 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu esemptiadau cenedlaethol newydd pe bai tystiolaeth o effeithiau negyddol ar unrhyw grŵp arbennig yn dod i'r amlwg.

### *Ceiswyr lloches a ffoaduriaid*

5.51 Oherwydd nad oes gan geiswyr lloches ddim, neu fawr ddim, gallu i gael arian, gallai'r ardoll gael effaith negyddol arnynt. Fodd bynnag, mae Deddf 2025 yn nodi y bydd llety ar gyfer ceiswyr lloches, a drefnir gan awdurdodau lleol, yn esempt rhag talu'r ardoll. Hefyd, ceir system ad-dalu ar gyfer galluogi elusennau i adennill costau'r ardoll ar gyfer unrhyw arhosiad cymwys.

5.52 Ym mis Medi 2025, roedd 3,331 o geiswyr lloches yng Nghymru a oedd yn cael cymorth gan y Swyddfa Gartref wedi'u cartrefu mewn Llety Wrth Gefn (gwestai), Llety Cychwynnol neu Lety Gwasgaru (llety tymor hwy), neu'n cael cynhaliaeth yn unig.[17]

5.53 Yn yr un modd, ym mis Medi 2025, roedd 30 o geiswyr lloches yn Ynys Môn a oedd yn cael cymorth gan y Swyddfa Gartref wedi'u cartrefu mewn Llety Gwasgaru.[18]

5.54 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi anawsterau o ran canfod faint o ffoaduriaid sydd i'w cael yng Nghymru, a hynny oherwydd diffyg data'n ymwneud â ble yn union y mae ffoaduriaid yn preswylio. Serch hynny, awgryma'r dystiolaeth ddiweddaraf fod yna 11 achos o adsefydlu yng Nghymru yn ail chwarter 2025 (yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Sir Gaerfyrddin a Phowys).[19]

5.55 Drachefn, mae Deddf 2025 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu esemptiadau cenedlaethol newydd pe bai tystiolaeth o effeithiau negyddol ar unrhyw grŵp arbennig yn dod i'r amlwg.

---

[17] Y Swyddfa Gartref. 'Immigration system statistics data tables'. Ar gael yma
[18] Y Swyddfa Gartref. 'Immigration system statistics data tables'. Ar gael yma
[19] Y Swyddfa Gartref. 'Immigration system statistics data tables'. Ar gael yma

*Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol*

5.56 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi'r gwaith ymgysylltu a gynhaliodd Llywodraeth Cymru gyda darparwyr gwasanaethau a goroeswyr er mwyn deall eu profiad bywyd yn well a deall lefel y mathau hyn o senarios.

5.57 Cynhwysir esemptiadau a systemau ad-dalu yn y Ddeddf, a bydd canllawiau'n cael eu paratoi ar gyfer y broses ymgeisio arall y cyfeiriwyd ati eisoes (mewn perthynas â datgelu manylion personol).

*Hil – y casgliad cyffredinol*

5.58 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Hil. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

5.59 Mae ymwelwyr Ynys Môn a chyflogeion yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai yn fwy tebygol o fod yn wyn o gymharu â'r cyfartaledd ledled Cymru.

5.60 Fel y nodir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gellir cymryd camau rhagweithiol i sicrhau y bydd modd dosbarthu manteision twristiaeth yn decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth (yn cynnwys y modd y caiff yr arian ei wario).

**Y Gymraeg**

5.61 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus Cymru fynd i'r afael â datblygu cynaliadwy er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y wlad. Un Nod Llesiant ar gyfer cyflawni hyn yw creu cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu'r Gymraeg. Yn unol â hyn, mae'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb yn ystyried effaith bosibl yr Ardoll Ymwelwyr ar gyffredinrwydd y Gymraeg yn Ynys Môn.

5.62 Mae Cyfrifiad 2021 yn nodi cyffredinrwydd sgiliau Cymraeg ledled Cymru. Mae cyfran y trigolion a chanddynt rywfaint o sgiliau Cymraeg (sef darllen, ysgrifennu, siarad neu ddeall Cymraeg llafar) yn sylweddol fwy yn Ynys Môn (69%) o gymharu â Gogledd Cymru (39%) a Chymru (25%).

5.63 Ymhellach, mae cyfran y trigolion yn Ynys Môn sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (45%) bron ddwbl y cyfartaledd ar gyfer Gogledd Cymru (24%) a dros deirgwaith yn fwy na'r cyfartaledd rhanbarthol (14%).

5.64 Nodir hyn hefyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Ddeddf. Yn yr asesiad hwnnw, dangosir y ceir nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth dros 16 oed a hŷn sy'n byw ar Ynys Môn ac sy'n gweithio yn y diwydiant llety a gwasanaethau bwyd (47.7%).

5.65 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi hefyd y gallai'r ardoll ymwelwyr effeithio ar y Gymraeg pe bai'n cael ei chyflwyno mewn ardaloedd lle mae cyfrannau cymharol fawr o siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y diwydiant llety a gwasanaethau bwyd. Nodir y gellid esgor ar effeithiau cadarnhaol yn sgil y canlynol:

- Hwb i’r economi leol yn sgil gwario arian yr ardoll gan arwain at gynyddu swyddi yn y sector twristiaeth – mae’r Asesiad o’r Effaith Economaidd yn awgrymu y gellid cael rhwng -31 a +7 o swyddi, felly mae’n debygol y bydd yr effaith yn gymharol fach.

- Effaith gadarnhaol o ran dod i gysylltiad â’r Gymraeg.

- Defnyddio refeniw’r ardoll i hyrwyddo a chefnogi’r Gymraeg neu i ariannu mentrau sy’n gwella’r seilwaith a’r gwasanaethau mewn ardaloedd lle ceir canran gymharol fawr o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd (neu mewn ardaloedd lle ceid canran gymharol fawr o siaradwyr Cymraeg tan ddegawdau diweddar). Gallai hyn hyrwyddo amlygrwydd, bywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad yr ymwelwyr a’r trigolion fel ei gilydd.

5.66 Nodir rhai effeithiau negyddol posibl hefyd:

5.66.1 Effaith economaidd negyddol bosibl yr ardoll – ond fel y nodir uchod, rhagwelir na fydd mwy na 31 o swyddi’n cael eu colli yn y senario waethaf, felly cymharol fach fydd yr effaith mewn gwirionedd.

5.66.2 Yr effaith bosibl ar dripiau dros nos sy’n anelu at gefnogi’r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Gallai hyn esgor ar effaith addysgol a diwylliannol. Ond ni fydd yn rhaid i bobl ifanc dan 18 oed dalu’r ardoll pan fyddant yn aros mewn llety fel hostelau neu mewn safleoedd gwersylla. Rhoddir rhyddhad i arosiadau dros nos a gyflenwir gan ddarparwyr addysg fel rhan o’r gwaith o gyflenwi cyrsiau astudio a gynigir i ddisgyblion neu fyfyrwyr.

5.67 Yn gyffredinol, ceir canran fawr o siaradwr Cymraeg yn Ynys Môn, yn cynnwys yn y sector twristiaeth. Gallai ardoll ymwelwyr yn Ynys Môn esgor ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y Gymraeg. Gallai’r ardoll esgor ar effeithiau negyddol bach yn ymwneud â gostyngiad mewn gwariant ymwelwyr, neu gellid gweld cynnydd bach yn sgil y swyddi a fyddai’n cael eu cefnogi gan arian yr ardoll. Yn yr un modd, gallai’r ardoll esgor ar effeithiau cadarnhaol yn ymwneud â chanlyniad y gwariant – bydd hyn yn ddibynnol ar y modd y caiff yr arian ei wario (a fydd yn cael ei ddatblygu yn cynnwys adborth trwy ymgynghori).

### Crefydd a Chred

5.68 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn amcangyfrif bod 174,456 o dwristiaid domestig wedi “ymweld ag eglwys gadeiriol, eglwys, abaty neu adeilad crefyddol arall” yn 2023.


5.69 Yn Asesiad Llywodraeth Cymru o’r Effaith ar Gydraddoldeb, nodir na cheir cydberthynas uniongyrchol rhwng ardollau ymwelwyr a chrefydd, cred neu ddim cred. Nodir hefyd y gallai trethi neu bolisïau twristiaeth ryngweithio â rhyddid unigolion i arfer crefydd, gan ddibynnu ar natur yr ymweliad. Trwy gyflwyno ardoll ymwelwyr, gellid effeithio ar allu pobl i fforddio ymweld â mannau o’r fath, gan ddylanwadu o bosibl ar nifer y pererinion neu’r twristiaid a fyddai’n ymweld â safleoedd crefyddol gan y byddai’r ardoll yn cynyddu’r costau i ymwelwyr a fyddai’n aros dros nos mewn llety ymwelwyr.

5.70 Wrth gynnal yr asesiad ar lefel genedlaethol, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â Chyngor Rhyng-ffydd Cymru yn 2023, a hefyd cafwyd ymateb i gais arall am adborth ym mis Mehefin 2024 trwy gyfrwng cynrychiolaeth ar Grŵp Partneriaeth y Trydydd Sector.

5.71 Ni fyddai'r ardoll yn berthnasol i lety a gâi ei ddarparu am ddim. Ond byddai'r ardoll yn berthnasol i arosiadau mewn llety ymwelwyr dros nos cyfradd is (sef mater a godwyd trwy ymgysylltu, gan fod grwpiau ffydd yn trefnu tripiau gwersylla yn aml); er, gallai'r gyfradd is liniaru'r effeithiau negyddol posibl.

5.72 Ar hyn o bryd, nid oes data cyfatebol ar gael ar gyfer nifer y twristiaid sy'n ymweld ag adeiladau crefyddol yn Ynys Môn. Ond dengys Ffigur 4-1 fod yna 212 o fannau addoli yn Ynys Môn. Sylwer: proses ddangosol yn unig yw mapio mannau addoli ac efallai na fydd y manylion bob amser yn gyflawn, ac ni cheir diffiniad cyfreithiol clir o fannau addoli.

Ffigur 4-1: Mannau addoli yn Ynys Môn




5.73 Efallai y bydd pobl nad ydynt yn ymhél â phrosesau digidol fel rhan o'u ffydd yn dioddef effaith niweidiol. Er mwyn lliniaru unrhyw effaith bosibl, bydd gwasanaeth ac eithrio gwasanaeth digidol yn cael ei ddarparu pan fo angen.

5.74 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Chrefydd a Chred. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

### Anabledd

5.75 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail anabledd.

*Y boblogaeth*

5.76 Yn Ynys Môn, roedd yna oddeutu 24,250 o bobl a oedd yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb, sef 20.7% o gyfanswm y boblogaeth. Mae'r ganran hon yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 21.6%.[20]

*Ymwelwyr*

5.77 Ar sail tystiolaeth hanesyddol, nodir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb y gallai pobl anabl wynebu costau uwch ar gyfer aros mewn llety mewn rhai senarios, a nodwyd rhai rhwystrau a heriau ar gyfer pobl anabl, yn cynnwys:

- Rhwystrau amgylcheddol: Dangosodd adroddiad ymchwil Arolwg Anabledd y DU yn 2021 fod 57% o bobl anabl wedi dweud nad oes modd iddynt fynd ar wyliau oherwydd materion yn ymwneud â hygyrchedd, h.y. mynediad i adeiladau cyhoeddus.
- Ceir diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o argaeledd a nifer y gwasanaethau a'r cyfleusterau twristiaeth hygyrch sydd ar gael, ynghyd â diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hawliau pobl anabl fel twristiaid. Mae gwybodaeth am gyrchfannau hygyrch yn hollbwysig o ran cynyddu cyfleoedd twristiaeth ymhlith unigolion anabl.
- Efallai y bydd archebu gwyliau yn arwain at gostau ychwanegol oherwydd diffyg argaeledd opsiynau teithio a llety hygyrch a fforddiadwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, ac yn ystod tymhorau prysur. Mewn arolwg diweddar gan Leonard Chesire Disability, a gyhoeddwyd yn Enable Magazine, dywedodd 8 rhan o 10 o bobl anabl eu bod yn wynebu rhwystrau ac anawsterau wrth aros mewn cyrchfannau a gwestai yn y DU. Soniodd mwy na 70% am broblemau o ran dod o hyd i ystafelloedd hygyrch. Hefyd, yn ôl 6 rhan o 10 o'r ymatebwyr, mae costau llety hygyrch yn rhwystr cyffredin sy'n atal pobl rhag mynd ar wyliau, ac yn aml ystyrir bod ystafelloedd hygyrch yn ddrytach.

5.78 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi nifer o heriau eraill, yn cynnwys:

- Dewisiadau a chyfleoedd cyfyngedig i bobl anabl a rhai ag amhariadau – gall hyn effeithio ar eu boddhad â'u profiadau twristiaeth.
- Gall diffyg hygyrchedd i rai pobl anabl mewn safleoedd gwersylla a hostelau arwain at roi straen at gyllidebau teithio – caiff hyn ei liniaru i ryw raddau gan y gyfradd is a gynhwysir yn y ddeddfwriaeth.
- Costau ychwanegol a/neu opsiynau cyfyngedig i bobl sydd angen gofalwr, cyfarpar arbenigol neu gi tywys.

5.79 Gan gydnabod bod yna ddiffyg data a thystiolaeth yn gyffredinol, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â chynrychiolwyr Anabledd Cymru, Autistic UK a Triniaeth Deg i Fenywod Cymru wrth lunio Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

5.80 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, pe bai ardoll ymwelwyr yn cael ei chodi ar ofalwyr sy'n mynd gydag unigolion anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad, gellid dehongli y byddai hynny'n cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol.

---

[20] Cyfrifiad 2021

5.81 Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystyried nifer o opsiynau ar gyfer rhoi ad-daliadau i bobl anabl a'u gofalwyr. Yn y pen draw, mae a wnelo'r opsiwn a gynhwysir yn y Ddeddf â rhoi ad-daliadau i bobl anabl sy'n cael budd-dal anabledd cymwys ac sydd wedi talu ardoll ymwelwyr tra'n aros mewn llety ymwelwyr yng nghwmni unigolyn sy'n darparu gofal. Mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cydnabod y canlynol: 'Er nad yw'r opsiwn hwn yn dileu'r risg o wahaniaethu anuniongyrchol yn llwyr, ystyriwyd ei fod yn ymateb cymesur sy'n cydbwyso'r angen i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu anuniongyrchol ond hefyd yn sicrhau cywirdeb ac effeithlonrwydd y system dreth.'

5.82 O ran gweithgarwch twristiaeth, mae 31% o'r holl dripiau i Gymru yn cynnwys pobl sy'n anabl neu sydd ag amhariad. Ymhellach, cafodd 20% o'r holl dripiau dros nos i Gymru, rhwng Ionawr a Rhagfyr 2024, eu gwneud gan bobl a oedd yn gofalu am unigolion â chyflyrau meddygol.[21] Mae rhai o'r tripiau hyn yn ymwneud ag aros gyda chyfeillion a theulu yn eu cartrefi yn hytrach nag aros mewn llety ymwelwyr. Nid yw hyn yn golygu bod yr ymwelwyr hyn wedi mynd gyda'r unigolyn y gofalant amdano; yn hytrach, mae'n arwydd eu bod yn ysgwyddo'r math hwn o gyfrifoldeb gofalu. Ar hyn o bryd, nid yw'r data cyfatebol ar gael ar gyfer Ynys Môn.

### *Cyflogwyr a chyflogaeth*

5.83 Ymhellach, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn casglu ac yn rheoli'r ardoll. Yn achos darparwyr llety, rhagwelir na fydd y modd y gweithredir yr ardoll o ddydd i ddydd yn cael fawr o effaith ar berchnogion busnesau sydd ag amhariad ar y golwg a/neu'r clyw gan fod modd iddynt ryngweithio ag Awdurdod Cyllid Cymru mewn nifer o wahanol ffyrdd – system ddigidol ar gyfer ffeilio a dychwelyd ffurflenni i Awdurdod Cyllid Cymru ochr yn ochr â gwasanaeth ffôn a phapur pan fo angen.

5.84 Ymhellach, mae Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod gweithwyr anabl yn fwy tebygol o weithio mewn swyddi sy'n tueddu i fod yn llai diogel o gymharu â gweithwyr nad ydynt yn anabl. O blith y gweithwyr sy'n gweithio yn sector twristiaeth Cymru, mae 18% yn anabl – sef cyfran debyg i'r cyfartaledd ar draws pob diwydiant.[22]

5.85 Ar hyn o bryd, nid yw'r data cyfatebol ar gyfer Ynys Môn ar gael.

### *Anabled yn gyffredinol*

5.86 Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, pe bai ardoll ymwelwyr yn cael ei chodi ar ofalwyr sy'n mynd gydag unigolion anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad, gellid dehongli y byddai hynny'n cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol, ond nodwyd bod yr opsiwn (sef peidio â chynnwys esemptiad) yn ymateb cymesur.

5.87 Ar ôl cynnwys mesurau lliniaru (yn cynnwys rhoi ad-daliadau i unigolion sy'n cael budd-dal anabledd), ni nodwyd unrhyw effeithiau eraill ac ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

---

[21] Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (tripiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024: Ar gael yma
[22] Llywodraeth Cymru: Ystadegau busnes a marchnad lafur sector twristiaeth Cymru: Ar gael yma

5.88 Gellir cymryd camau rhagweithiol i sicrhau y bydd modd dosbarthu manteision twristiaeth yn decach ymhlith pob segment o'r boblogaeth, yn cynnwys y modd y caiff yr arian ei wario – gallai hyn gynnwys mesurau i sicrhau bod safleoedd twristiaeth yn fwy hygyrch i bobl anabl.

## Beichiogrwydd a mamolaeth

5.89 Mae darpariaethau Deddf 2025 yn berthnasol i'r holl ymwelwyr a fydd yn aros mewn llety ymwelwyr dros nos nad yw'n breswylfa arferol iddynt; nid yw'r darpariaethau'n gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth.

5.90 Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn darparu ystadegau'n ymwneud â faint o bobl sy'n feichiog. O'r herwydd, ystyriwyd data genedigaethau byw yn y dadansoddiad sylfaenol hwn.[23] Mae'r data diweddaraf sydd ar gael, sy'n deillio o 2024, yn dangos bod y gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol[24] yn uwch yn Ynys Môn (48.6) o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (45.7).

5.91 Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Beichiogrwydd a Mamolaeth. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

---

[23] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024. Genedigaethau Byw.
[24] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021. Cyfrifiad.

## Amddifadedd

5.92 Er na chaiff amddifadedd ei ddosbarthu fel nodwedd warchodedig yn Neddf 2010, rhoddir ystyriaeth iddo gan ei fod yn croestorri â gwahanol nodweddion gwarchodedig.


5.93 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Llywodraeth Cymru (2025) yn cyfuno dangosyddion, yn cynnwys ystod o ffactorau cymdeithasol, economaidd a thai, er mwyn esgor ar sgôr amddifadedd ar gyfer holl ardaloedd Cymru (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is). Ymchwilir i wyth maes amddifadedd, sef:

- Incwm
- Cyflogaeth
- Iechyd
- Addysg
- Mynediad at wasanaethau
- Tai
- Diogelwch cymunedol
- Yr amgylchedd ffisegol

5.94 Rhestrir yr holl ardaloedd yn eu trefn yn ôl lefel eu hamddifadedd. Yn Ffigur 4-2 isod, dangosir lefelau cymharol amddifadedd Ynys Môn – mae'r ardaloedd coch ymhlith y 10% mwyaf amddifad, mae'r ardaloedd oren ymhlith y 10%-20% mwyaf amddifad, ac mae'r ardaloedd melyn ymhlith y 20%-30% mwyaf amddifad.

5.95 Fel y gwelir yn Ffigur 4-2, mae rhai ardaloedd yn Ynys Môn ymhlith y 10%-20% a'r 20%-30% mwyaf amddifad yng Nghymru, ac mae ardal fach ymhlith y 10% mwyaf amddifad.

Ffigur 4-2: Map Mynegai Amddifadedd Lluosog o Ynys Môn




5.96 Bydd arian yr ardoll yn cael ei ailfuddsoddi yn y gwaith o reoli'r gyrchfan a gwella'r ardal, yn cynnwys darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau at ddefnydd ymwelwyr (pa un a fyddant at ddefnydd pobl leol hefyd, ai peidio), a lliniaru'r effaith a gaiff ymwelwyr. Gan ddibynnu ar y modd y defnyddir yr arian, gallai leihau amddifadedd (neu ddangosyddion amddifadedd) o ganlyniad i fuddsoddi.

## Crynodeb o'r effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodwedd warchodedig

5.97 Mae Tabl 4-10 yn crynhoi canfyddiadau'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn erbyn nodweddion gwarchodedig.

Tabl 4-10: Crynodeb o'r effeithiau

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru posibl pan fo angen |
|---|---|---|
| Oedran | Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas ag Oedran ar ôl ystyried y mesurau lliniaru (yn cynnwys yr esemptiad i bobl ifanc dan 18 oed ar gyfer llety cyfradd is). Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.<br><br>Ceir effeithiau posibl yn ymwneud â chyfran fwy o ymwelwyr hŷn yn Ynys Môn, a gweithlu ifanc; ond yn ôl pob tebyg, bydd effeithiau'r ardoll yn fach – a byddant yn cael eu gwrthbwyso, i ryw raddau, gan wariant yr ardoll. | Caiff pobl dan 18 oed eu heithrio rhag talu ardoll ar gyfer arosiadau cyfradd is.<br><br>Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol |
| Anabledd | Yn ôl Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb, pe bai ardoll ymwelwyr yn cael ei chodi ar ofalwyr sy'n mynd gydag unigolion anabl sydd angen gofal fel rhan o'u hymweliad, gellid dehongli y byddai hynny'n cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol, ond nodwyd bod yr opsiwn (sef peidio â chynnwys esemptiad) yn ymateb cymesur.<br><br>Ar ôl cynnwys mesurau lliniaru (yn cynnwys rhoi ad-daliadau i unigolion sy'n cael budd-dal anabledd), ni nodwyd unrhyw effeithiau eraill ac ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad | System ad-dalu ar gyfer pobl sy'n cael budd-dal anabledd ac sy'n cael cwmni unigolyn sy'n darparu gofal, cymorth neu help.<br><br>Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol |

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru posibl pan fo angen |
|---|---|---|
| | Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb. | |
| Ailbennu rhywedd | Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas ag Ailbennu Rhywedd. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb. | Caiff arosiadau mewn ysbytai preifat (e.e. fel rhan o broses ailbennu rhywedd unigolion) eu hesemptio rhag yr ardoll. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Phriodas a Phartneriaeth Sifil.<br><br>Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb. | Ni nodwyd effeithiau posibl |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Beichiogrwydd a Mamolaeth. Er y ceir cyfradd ffrwythlondeb uwch yn Ynys Môn, ni ragwelir y bydd hyn yn newid y canfyddiad 'dim effaith'. | Ni nodwyd effeithiau posibl |
| Hil | Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Hil. Ni | Caiff safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ddarperir gan awdurdodau lleol neu landlordiaid |

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru posibl pan fo angen |
|---|---|---|
| | ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.<br><br>Mae ymwelwyr Ynys Môn a chyflogeion yn y sector Dosbarthu, Gwestai a Bwytai yn fwy tebygol o fod yn wyn o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. | cymdeithasol cofrestredig eu hesemptio rhag yr ardoll.<br><br>Mae esemptiadau / ad-daliadau ar gael ar gyfer grwpiau agored i niwed, e.e. ceiswyr lloches a phobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig.<br><br>Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol |
| Crefydd a chred | Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Chrefydd a Chred. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb. | Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn cynnig prosesau nad ydynt yn ddigidol ar gyfer y bobl hynny y gallai eu ffydd gyfyngu ar ymgysylltu digidol.<br><br>Mae llety am ddim yn esempt rhag yr ardoll, a chodir ardoll is ar lety cyfradd is.<br><br>Defnydd o'r ardoll yn y dyfodol |
| Rhyw | Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Rhyw. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb.<br><br>Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith anghymesur neu wahaniaethol i'w chael yn Ynys Môn ar ferched (na dynion) sy'n gweithio yn y sector twristiaeth, o ganlyniad i'r ardoll. | Ni nodwyd effeithiau posibl |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad na cheir unrhyw effaith uniongyrchol bosibl mewn perthynas â Chyfeiriadedd Rhywiol. Ni ragwelir y bydd unrhyw nodweddion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynys Môn yn newid canfyddiadau Asesiad | Ni nodwyd effeithiau posibl |

| Nodwedd warchodedig | Effeithiau posibl | Mesurau lliniaru posibl pan fo angen |
|---|---|---|
| | Llywodraeth Cymru o'r Effaith ar Gydraddoldeb. | |